

Geirfa

Fred Talk – seinio'r gair cyn ei ddarllen (blending)

sound-blending – ychwanegu seiniau at ei gilydd i greu gair, e.e. c-a-t *cat*

special friends – seiniau sy'n cael eu hysgrifennu â mwy nag un llythyren, e.e. **sh**, **ng**, **qu**, **ch**

Speed Sounds – y seiniau unigol sy'n ffurfio geiriau



Darllenwch straeon i'ch plant ag angerdd! Po fwyaf y byddwch chi'n hoffi'r stori, y mwyaf y bydd eich plentyn yn hoffi darllen.

Mae Llyfryn 1 yn esbonio sut i helpu eich plentyn i:

- ddarllen Set 1 Speed Sounds
- blendio seiniau i ffurfio geiriau
- darllen y Blending Books
- darllen y Storybooks Coch, Gwyrdd a Phorffor.

Mae gan <https://www.ruthmiskin.com/en/find-out-more/parents/> nifer o fideos i'ch helpu chi i helpu'ch plentyn.

Am fwy o wybodaeth am *Read Write Inc.*, siaradwch â'r rheolwr *Read Write Inc.* yn ysgol eich plentyn neu ewch i www.readwriteinc.com.

Darllen gartref Llyfryn 1

Mae eich plentyn yn dysgu darllen â *Read Write Inc. Phonics*, rhaglen llythrennedd lwyddiannus a phoblogaidd iawn. Mae'r **llyfryn cyntaf hwn** yn dangos sut y gallwch chi roi cychwyn cyflym i'ch plentyn.

Bydd eich plentyn yn dysgu darllen mewn ffordd syml iawn.

Bydd yn dysgu:

1. Darllen **llythrennau** yn ôl eu 'seiniau'
2. Blendio'r seiniau hyn i ffurfio **geiriau**
3. Darllen y geiriau mewn **stori**.



Sut bydd fy mhlentyn yn dysgu darllen?

Yn gyntaf, bydd eich plentyn yn dysgu darllen:

- Set 1 Speed Sounds: dyma'r seiniau rydyn ni'n eu hysgrifennu ag un llythyren: **m a s d t i n p g o c k u b f e l h r j v y w z x a** seiniau rydyn ni'n eu hysgrifennu â dwy lythyren (bydd eich plentyn yn galw'r seiniau hyn yn 'special friends'): **sh th ch qu ng nk ck**
- Geiriau sy'n cynnwys y seiniau hyn, drwy sound-blending, e.e. m-a-t *mat*, c-a-t *cat*, g-o-t *got*, f-i-sh *fish*, s-p-o-t *spot*, b-e-s-t *best*, s-p-l-a-sh *splash*
- Blending Books a Storybooks Coch, Gwyrdd a Phorffor.

Yn ail, bydd yn dysgu darllen:

- Set 2 Speed Sounds: **ay ee igh ow oo oo ar or air ir ou oy**
- Geiriau sy'n cynnwys y seiniau hyn
- Storybooks Pinc, Oren a Melyn.

Yn drydydd, bydd yn dysgu darllen:

- Set 3 Speed Sounds: **ea oi a-e i-e o-e u-e aw are ur er ow ai oa ew ire ear ure**
- Geiriau sy'n cynnwys y seiniau hyn
- Storybooks Glas a Llwyd.

Bydd eich plentyn yn dysgu dweud sain llythyren, nid enw'r llythyren, felly bydd yn dweud 'm' fel yn 'mat', yn lle 'em'; 's' fel yn 'sun' yn lle 'es'.

Sut i wrando ar eich plentyn yn darllen




- Peidiwch â darllen y llyfr yn uchel cyn i'ch plentyn ei ddarllen i chi.
- Gofynnwch i'ch plentyn ddarllen y seiniau a'r geiriau cyn darllen y stori.
- Pan fydd eich plentyn yn darllen y stori, gofynnwch iddo ef neu hi seinio'r geiriau nad yw'n gallu eu darllen yn awtomatig. Peidiwch â gadael i'ch plentyn gael gormod o drafferth. Canmolwch eich plentyn pan fydd yn llwyddo.
- Darllenwch bob brawddeg neu dudalen eto i symud y plot ymlaen. (Mae egni eich plentyn yn mynd i mewn i ddarllen y geiriau nid y stori.)
- Peidiwch â gofyn i'ch plentyn ddyfalu'r gair gan ddefnyddio'r lluniau.
- Gwnewch bopeth ag amynedd a chariad!

Rydyn ni'n cael amser stori bob dydd yn yr ysgol er mwyn i blant fagu cariad at straeon. Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n gwneud yr un peth drwy ddarllen stori amser gwely i'ch plentyn bob nos. Mae gennym ni lyfrau ardderchog yn yr ysgol y gallwch chi eu benthyg.

3. Helpwch eich plentyn i ddarllen y Sound Blending Books

Gofynnwch i'ch plentyn ddarllen pob gair mewn seiniau (Fred Talk) ac wedyn dweud y gair. Wedyn, gall droi'r dudalen a gweld a oedd yn gywir.



4. Helpwch eich plentyn i ddarllen y Storybooks

Storybooks Du a Gwyn

Unwaith bod eich plentyn wedi dechrau darllen *Read Write Inc. Phonics* Storybooks, bydd yn dod â Storybook du a gwyn adref. Mae hwn yn gopi o'r fersiwn lliwgar y bydd wedi'i ddarllen yn yr ysgol.

Bydd eich plentyn wedi darllen y stori hon deirgwaith gyda'r athro/ athrawes darllen, felly dylai fod yn gallu darllen y stori'n hyderus.

Mae'r llyfrau yn cynnwys esboniad byr o sut i ddilyn y gweithgareddau.



Book Bag Books

Efallai bydd eich plentyn yn dod â Book Bag Book adref hefyd. Mae'r llyfr hwn yn adeiladu ar y syniadau a llawer o'r geiriau yn y Storybook y mae newydd ei ddarllen. Bydd angen mwy o gymorth ar eich plentyn i ddarllen y llyfr hwn.

Eto, mae'r llyfrau yn cynnwys esboniadau o sut i ddefnyddio'r gweithgareddau.



1. Helpwch eich plentyn i ddarllen Set 1 Speed Sounds


Cyn dechrau arni, ewch i <https://www.ruthmiskin.com/en/find-out-more/parents/> i ymarfer dweud y seiniau'n glir. Y mwyaf clir y byddwch *chi'n* dweud y seiniau, y mwyaf cyflym y bydd eich plentyn yn eu dysgu.

Pwysig: Rydyn ni'n dweud 'mmmm' yn lle 'muh' a 'lllll' yn lle 'luh' wrth ddysgu'r seiniau i blant. Mae hyn yn wir yn helpu plant pan fyddan nhw'n dysgu blendio seiniau i ddarllen geiriau.

Bydd eich plentyn yn dod â chardiau Set 1 Speed Sounds neu *My Set 1 Speed Sounds Book* adref.

Fe welwch fod pob sain yn cael ei dangos fel llun. Er enghraifft:

- Mae 's' ar ffurf 'snake' (neidr)
- Mae 'd' ar ffurf 'dinosaur' (dinosor)
- Mae 'a' ar ffurf 'apple' (afal)
- Mae 'm' ar ffurf dau fynydd, 'mountains'.



Defnyddio cardiau Set 1 Speed Sounds

Mae enw pob llun wedi'i ysgrifennu (yn Saesneg) ar gefn y cardiau.

1. Gofynnwch i'ch plentyn ddweud enw'r llun ar gefn pob cerdyn (yn Saesneg), e.e. a-a-a-apple, ssssnake, gan fynd yn gyflymach bob tro.
2. Helpwch eich plentyn i ddweud y sain sydd wedi'i chuddio y tu ôl i bob llun, e.e. mae 's' y tu ôl i'r 'snake' (neidr). Gwnewch hyn sawl gwaith nes y bydd eich plentyn yn gallu gwneud hyn yn gyflym.
3. Helpwch eich plentyn i ddweud y seiniau ar ochr y llythyren, gan fynd yn gyflymach bob tro. Os bydd yn anghofio, trowch y cerdyn yn ôl i ochr y llun. Pan fydd eich plentyn yn gallu dweud y seiniau heb droi'r cerdyn yn ôl i wirio, gwnewch hyn yn gyflymach!



Dysgu'r Speed Sounds yn yr ystafell ddosbarth.

Defnyddio My Set 1 Speed Sounds Book

Gofynnwch i'ch plentyn fodio trwy'r llyfr a darllen y seiniau mor gyflym ag y gall. Os bydd eich plentyn yn oedi wrth ddarllen sain, mae 'llun y sain' ar y cefn i'w helpu i gofio.

Gall eich plentyn hefyd ymarfer ysgrifennu'r sain ar yr un dudalen.

Ymarferwch ddarllen ac ysgrifennu seiniau yn *My Set 1 Speed Sounds Book*.†



2. Helpwch eich plentyn i ddarllen geiriau


Unwaith y gall eich plentyn ddarllen Set 1 Speed Sounds yn hyderus, gall ddysgu darllen geiriau. Yn gyntaf, mae eich plentyn yn cwrdd â broga tegan o'r enw Fred. Gall Fred *ddim ond* dweud y seiniau mewn gair ac mae angen i'ch plentyn ei helpu i ddarllen y gair. Felly, pan fydd eich plentyn yn sôn am 'Fred Talk', byddwch chi'n gwybod bod hyn yn golygu darllen seiniau'r gair.



Mae Fred yn dweud y seiniau ac mae'r plentyn yn dweud y gair.

Gallwch helpu eich plentyn i ddarllen geiriau drwy ddilyn y camau hyn:

1. Ffurfiwch air â thri cherdyn y gall eich plentyn ei ddarllen yn gyflym, e.e. c-a-t.



Pwyntiwch at y seiniau a'u dweud, wedyn dywedwch y gair. Gofynnwch i'ch plentyn eich copio chi.

Cymysgwch y cardiau. Gofynnwch i'ch plentyn ffurfio'r gair eto, ac wedyn pwyntio at y seiniau a'u dweud.

Gwnewch hyn eto gyda mwy o eiriau 3 sain, gan gynnwys ychydig o seiniau sy'n cynnwys mwy nag un llythyren, e.e. ch-a-t, sh-i-p, th-i-s.

2. Gosodwch dri cherdyn ar y bwrdd. Y tro hwn, gofynnwch i'ch plentyn ddweud y seiniau.

Helpwch eich plentyn i flendio'r seiniau i ffurfio geiriau, nes bod eich plentyn yn gallu gwneud hyn heb eich help.

3. Gwnewch hyn eto gydag ychydig o eiriau sy'n cynnwys 4 sain, e.e. b-l-i-p, f-r-o-g, g-r-i-n, s-t-o-p, j-u-m-p, h-a-n-d, b-l-a-ck.